adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

# Adolygu effaith Adnodd gan ddefnyddio mapio effaith crychdonnau

Adroddiad gan Arad Research i Adnodd

Gorffennaf 2026

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Trosolwg o effaith Adnodd: allbwn y mapio effaith crychdonnau | 4 |
| 3. | Cyd-destun: sefydlu Adnodd a gosod seiliau cadarn | 5 |
| 4. | Mapiau crychdonnau manwl | 10 |
| 5. | Casgliad: yr effeithiau sy'n amlwg o'r mapiau effaith | 14 |

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r effeithiau cynnar sydd wedi dod i'r amlwg wrth i Adnodd sefydlu. Mae canfyddiadau'r adroddiad wedi'u seilio ar waith Mapio Effaith Crychdonnau, a ddefnyddiwyd i archwilio ac i ystyried yr effeithiau hynny.

## Beth yw mapio effaith crychdonnau?

Dull gweledol a chyd-gynhyrchiol yw mapio effaith crychdonnau (ripple effect mapping) sy'n dal y "crychdonnau" o newid sy'n dechrau'n fach yn lleol ac yn ymledu drwy'r system. Mae'n ddull cyfranogol, ansoddol sy'n gallu cofnodi effeithiau ehangach prosiect neu raglen. Mae'n dod â phobl ynghyd sydd wedi bod yn rhan o gyflawni prosiect neu raglen, neu wedi'u heffeithio ganddo, i fapio yr hyn maen nhw wedi'i wneud a'r effeithiau hyd yn hyn.

## Dull

Cynhaliwyd y gwaith hwn o fewn cyd-destun Strategaeth Adnodd 2025–2028, a phrif bwrpas yr allbwn yw cefnogi cyfathrebu effeithiolrwydd y Strategaeth. Mae Adnodd yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid i gomisiynu a chyd-greu adnoddau dwyieithog o ansawdd uchel sy'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, tuag at sicrhau bod pob dysgwr ac addysgwr yn cael mynediad hawdd at ddeunyddiau perthnasol, dwyieithog a chynhwysol.

Ein nod gyda'r prosiect hwn oedd deall cyfraniad Adnodd at gomisiynu a chyd-greu yr adnoddau hyn, a sut mae'r gwaith hwn yn creu crychdonnau o effaith i ysgolion, partneriaid a'r system ehangach. Gwnaed hyn drwy drafod a chasglu syniadau gan staff Adnodd yn y cyfnod Chwefror – Mawrth 2026.

Hwylusodd Arad ddau weithdy mapio effaith crychdonnau ar-lein a fynychwyd gan aelodau o dîm Adnodd. Nod y gweithdai hyn oedd cyd-gynhyrchu'r map effaith crychdonnau. Roedd y gweithdy cyntaf yn cynnwys casglu gwybodaeth trwy ofyn cwestiynau fel:

(a) Pa newidiadau bu o ganlyniad i sefydlu Adnodd, o'r cyfnod sefydlu cynnar ac erbyn heddiw?

Canolbwyntiodd yr ail weithdy ar gadarnhau a mireinio'r themâu a gasglwyd o'r gweithdy cyntaf, gan rannu'r crychdonnau oedd wedi dod i'r amlwg o'r gweithdy cyntaf gyda'r tîm. Roedd y map a ddangoswyd yn tynnu llinellau o'r canol ("Adnodd fel sefydliad") allan i **Ymchwil > Adnabod Angen > Cydweithio > Allbynnau > Canlyniadau**.

Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein gyda dau aelod o'r Bwrdd i ychwanegu at themâu'r gweithdai.

# 2. Trosolwg o effaith Adnodd: allbwn y mapio effaith crychdonnau

**Mae ffrwyth trafodaethau'r gweithdai wedi'u crynhoi ar ffurf tri map effaith. Bwriad y mapiau hyn yw deall, dangos a chyfathrebu'r "llwybrau o grychdonnau" sy'n adlewyrchu effaith Adnodd yn ei flynyddoedd cynnar. Maent yn seiliedig yn uniongyrchol ar yr hyn a rannwyd gan Dîm Adnodd yn ystod y gweithdai ac yn tynnu sylw at y meysydd a ddaeth i'r amlwg fel rhai mwyaf dylanwadol.**

Yn y gweithdai, nododd Tîm Adnodd dri maes lle mae effaith y sefydliad yn ymledu'n glir: cydweithio, adnabod anghenion, ac ymchwil. Er bod pob un o'r llwybrau hyn yn arwain at wahanol fathau o newid, maent i gyd yn tarddu o'r un set o werthoedd: arloesedd, creadigrwydd, dulliau newydd o weithio, parodrwydd i wrando ac ymateb, ac agwedd gadarnhaol at ddwyieithrwydd. Mae'r tri disgrifiad byr isod yn crynhoi'r prif lwybrau crychdonnau (mae'r diagramau eu hunain yn ymddangos yn nes ymlaen yn yr adroddiad).



## Llwybr 1: cydweithio

Yn y llwybr hwn, mae gallu'r tîm i adeiladu perthnasoedd, meithrin ymddiriedaeth a ffyrdd ystwyth o weithio yn sbarduno cydweithio cryfach gyda chyflenwyr a rhanddeiliaid. Mae'r cydweithio hwn yn arwain at fwy o effeithlonrwydd, dulliau gweithio mwy cadarn, a chydweithio ar draws ystod eang o bartneriaid.



## Llwybr 2: adnabod anghenion

Mae'r llwybr hwn yn dangos sut mae Adnodd yn defnyddio mewnwelediadau i adnabod themâu, blaenoriaethau a bylchau mewn darpariaeth. O hynny, mae gwaith y sefydliad yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru ac yn llywio'r adnoddau y mae'n eu comisiynu neu'n eu datblygu.



## Llwybr 3: ymchwil

Mae gwaith ymchwil Adnodd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r canfyddiadau yn cryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer comisiynu adnoddau dwyieithog o ansawdd da.

Gyda'i gilydd, mae'r crychdonnau hyn yn dangos sut mae gweithgarwch cynnar Adnodd yn ymledu drwy'r system addysg ac yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer newid hirdymor. Mae'r adroddiad yn archwilio pob un o'r tri llwybr hyn yn fwy manwl. Cyn hynny, mae'r adroddiad yn amlinellu'r cyd-destun sefydlu ac yn cyflwyno'r diagramau sy'n disgrifio diwylliant a ffyrdd o weithio Adnodd.

# 3. Cyd-destun: sefydlu Adnodd a gosod seiliau cadarn

Cyn cyflwyno'r tri map crychdonnau llawn, mae'r adran hon yn rhoi'r cyd-destun sefydlu ac yn cyflwyno'r diagramau sy'n dangos y ffactorau a fu'n sbardun i'r effaith.

## Sefydlu Adnodd

Mae'r effaith crychdonnau sy'n gysylltiedig ag Adnodd yn deillio o'i sefydlu fel corff annibynnol. Mae Adnodd yn derbyn ei gyllid gan Llywodraeth Cymru, ac mae'n gyfrifol am gyflawni'r amcanion a nodir yn ei lythyr cylch gwaith, mae'n gweithredu ar lefel hyd braich o'r llywodraeth.


Dywedodd staff fod yr annibyniaeth hon yn allweddol i'w gallu i symud yn gyflym, comisiynu adnoddau'n bwrpasol ac ymateb i anghenion gwirioneddol ymarferwyr a dysgwyr. Yn ymarferol, mae hyn wedi eu galluogi i gychwyn ar ddatblygu adnoddau hygyrch, o ansawdd uchel ac sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru o'r diwrnod cyntaf.

Dengys y diagram yn ffigur 1 sut mae sefydlu Adnodd yn sbardun ar gyfer y crychdonnau effaith a adnabyddwyd yn ystod y gweithdai. Fe welwn Adnodd yn y canol ac wedyn yr haen nesaf yn cynnwys **cydweithio, adnabod anghenion ac ymchwil**, y tri maes gwaith a ddaeth yn amlwg fel sail i weithgarwch ac effaith Adnodd. Arweinia hynna at yr ail haen, sef comisiynu pwrpasol gyda'r tri maes gwaith hyn yn dod ynghyd i lywio penderfyniadau comisiynu.

Mae'r diagram yn cynnig trosolwg gweledol o'r llwybr sy'n cysylltu gwaith craidd Adnodd â'r effaith sydd eisoes yn weladwy ar draws y system. Mae'r adran nesaf yn archwilio'r egwyddorion a'r gwerthoedd sydd wedi siapio diwylliant Adnodd ers ei sefydlu.



### Ffigur 1: Ffynhonnell y crychdonnau effaith




## Egwyddorion, gwerthoedd a diwylliant

Mae effeithiau cynnar Adnodd yn cael eu siapio gan y gwerthoedd a'r egwyddorion y cafodd y sefydliad ei adeiladu arnynt. Yn ganolog i'r rhain mae gweledigaeth Adnodd, ei genhadaeth glir, ynghyd ag ethos a ffyrdd o weithio sy'n dylanwadu ar yr ymagwedd o ddydd i ddydd. Yn eu tro mae'r rhain yn siapio sut mae Adnodd yn gweithredu ac yn cryfhau gallu'r sefydliad i gomisiynu ac i ddatblygu adnoddau addysgol hygyrch ac o ansawdd uchel sy'n berthnasol i ymarferwyr a dysgwyr. Mae gweledigaeth Adnodd wedi'i nodi yn ei strategaeth 2025 – 28:


> *Bod gan ein holl ymarferwyr a dysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir, yr hawl i gael adnoddau addysgol o ansawdd da a fydd yn tanio'u dychymyg, yn hybu eu lles, ac yn ysgogi cariad gydol oes at ddysgu.*

Mae ethos Adnodd, sy'n canolbwyntio ar feithrin arloesedd, hyrwyddo cydraddoldeb, a chyfoethogi'r profiad dysgu ledled Cymru, yn sail i'r ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu. Tynnodd staff Adnodd sylw at y ffaith bod y systemau a'r prosesau a sefydlwyd yn ystod datblygiad cynnar Adnodd yn creu sylfeini cryf ar gyfer atebolrwydd a thryloywder. O ganlyniad, mae cyflenwyr a rhanddeiliaid ehangach yn gweld Adnodd fel sefydliad dibynadwy a chyfrifol y mae ganddynt hyder ynddo. Nododd aelodau tîm Adnodd hefyd fod strwythurau arweinyddiaeth, llywodraethu a staffio wedi atgyfnerthu'r ethos hwn.

Mae'r diagram yn ffigur 2 yn crynhoi'r elfennau hyn ac yn dangos sut maent yn dylanwadu ar y tri maes gwaith craidd: ymchwil, adnabod anghenion a chydweithio. Yn hytrach na dangos 'crychdonnau', mae'r diagram yn cynrychioli'r seiliau systemig sy'n llywio'r ffordd y mae Adnodd yn gweithio ac yn gosod y sylfaen ar gyfer y mapiau effaith a gyflwynir yn nes ymlaen.

### Ffigur 2: Crychdonnau cychwynnol

*Diwylliant a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar waith Adnodd*




Mae sefydlu Adnodd wedi creu diwylliant sefydliadol unigryw wedi'i siapio gan ei ethos, ei egwyddorion a'i weledigaeth sefydlu. Yn ystod y gweithdai disgrifiodd staff sut mae'r diwylliant hwn yn dylanwadu ar bob agwedd ar waith y sefydliad – o ymchwil ac ymgysylltu, dulliau o gydweithredu a'r ffordd y mae angen yn cael ei adnabod. Disgrifiwyd yr elfennau canlynol:

**Agwedd at risg:** Mae Polisi Rheoli Risg Adnodd yn amlinellu ei 'Awydd Risg', sy'n cydbwyso arloesi a gwella â chyfrifoldebau yn ymwneud ag enw da, atebolrwydd a gwerth am arian. Ar yr un pryd, mae'r sefydliad yn barod i fentro'n rhesymol drwy fabwysiadu technolegau a dulliau newydd o weithio, gan gefnogi ei ymrwymiad i greadigrwydd ac arloesi.

**Bod yn greadigol ac arloesol:** Mae creadigrwydd ac arloesedd yn rhan naturiol o waith Adnodd. Anogir staff i feddwl y tu hwnt i ddulliau traddodiadol, archwilio technolegau newydd a mabwysiadu dulliau gweithio newydd. Mae'r agwedd hon yn ymestyn i gydweithio ag ystod eang o randdeiliaid, gan alluogi'r sefydliad i ddatblygu atebion sy'n ymatebol i anghenion sy'n dod i'r amlwg ac yn cyd-fynd â'r dirwedd addysgol sy'n esblygu.


**Agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd:** Adlewyrchir ymrwymiad Adnodd i ddwyieithrwydd yn yr adnoddau y mae'n eu comisiynu ac yn ei weithrediadau mewnol. Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg, ac mae'r rhai sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg yn cael eu cefnogi'n weithredol. Mae'r dull hwn yn meithrin amgylchedd dwyieithog cadarnhaol o fewn y sefydliad ac yn dylanwadu ar bartneriaid a chyflenwyr allanol, gan eu hannog i fabwysiadu agweddau yr un mor gadarnhaol tuag at ddwyieithrwydd.

**Parodrwydd i wrando:** Roedd parodrwydd i wrando ar eraill yn cael ei amlygu'n gyson fel cryfder gan dîm Adnodd. Mae hyn yn galluogi Adnodd i ddyfnhau ei ddealltwriaeth o angen, dysgu o brofiad, addasu lle bo hynny'n briodol a chael mewnwelediad i ffyrdd newydd neu well o weithio.

**Brwdfrydedd:** Mae lefel uchel o frwdfrydedd staff yn cyfrannu at ymagwedd gynhwysol a chydweithredol Adnodd. Adroddwyd bod y brwdfrydedd hwn yn annog agweddau tebyg ymhlith sefydliadau partner, gan gefnogi perthnasoedd gwaith adeiladol a chynhyrchiol.

Daw ffigur 3 â'r elfennau diwylliannol hyn ynghyd a dangos sut maent yn dylanwadu ar y tri maes gwaith craidd: ymchwil, adnabod anghenion a chydweithio. Dyma'r mecanwaith sy'n esbonio sut mae ethos ac arferion mewnol Adnodd yn creu'r amodau cychwynnol ar gyfer yr effaith a ddisgrifir yn y mapiau crychdonnau nes ymlaen.

## Ffigur 3: Diwylliant fel sbardun i effaith




Mae'r diwylliant, yr ethos a'r agwedd at risg a ddisgrifir gan Dîm Adnodd yn siapio sut mae'r sefydliad yn gweithredu'n fewnol a sut mae'n gweithio gydag eraill. Maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at y canlyniadau y mae'r sefydliad yn gallu eu cyflawni. Yn gryno, mae bod yn weladwy ac yn rhagweithiol wedi helpu i godi proffil y sefydliad ac adeiladu cysylltiadau newydd; mae dulliau gweithio ystwyth ac ymatebol wedi galluogi Adnodd ymateb yn brydlon i anghenion sy'n dod i'r amlwg; ac mae pwyslais ar gydweithio a pharodrwydd i ddysgu wedi cryfhau perthnasoedd gwaith gydag ystod o sefydliadau partner, gan gefnogi nodi anghenion, ymchwil a chomisiynu sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru.

## Mae'r cyfan yn fwy na swm ei rannau

Nid yw'r diagramau ar eu pen eu hunain yn cyflwyno'r rhyng-ddibyniaeth lawn rhwng yr elfennau hyn. Nid yw'r agweddau sy'n ffurfio'r diwylliant yn gweithredu ar wahân nac ar hyd llinell syth; maent yn dylanwadu ar ei gilydd yn barhaus ac yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae diwylliant agored, ystwyth ac ymatebol Adnodd yn sbarduno cydweithio; mae cydweithio'n gwella'r gallu i adnabod anghenion; ac mae hynny'n galluogi comisiynu ac ymchwil o safon uwch. Mae bod yn agored i ddysgu ac addasu yn gwella effeithiolrwydd ac atebolrwydd y sefydliad, gan gryfhau ei allu i ddangos gwerth am arian. Mae'r rhyngweithio hwn – a ddangosir yn ffigur 4 - yn creu effaith sy'n fwy na swm ei rannau.

### Ffigur 4:Y crychdonnau effaith



# 4. Mapiau crychdonnau manwl


**Yn seiliedig ar y mewnbwn a dderbyniwyd drwy'r gweithdai, daeth tri maes gwaith craidd i'r amlwg fel sbardunau allweddol ar gyfer effaith Adnodd: cydweithio, adnabod anghenion, ac ymchwil. Mae'r tri maes hyn yn ffurfio'r pwynt cychwyn ar gyfer y llwybrau crychdonnau a ddangosir yn y diagramau effaith sy'n dilyn.**

Mae nod a gweledigaeth Adnodd, sef comisiynu adnoddau addysgol o safon uchel sy'n hygyrch i bawb, yn dibynnu ar y gallu i adnabod angen, i ymchwilio ac i gydweithio'n effeithiol â chyflenwyr, partneriaid ac ymarferwyr. Nid yw'r meysydd gwaith hyn yn gweithredu ar wahân; mae effaith o un maes yn dylanwadu ar y lleill ac yn eu hatgyfnerthu. Maent yn gweithredu fel cylch atgyfnerthol sy'n gyrru effaith Adnodd ac mae'r cysylltiad parhaus hwn yn dangos eto fod gwaith Adnodd yn fwy na swm y rhannau unigol.

## Y mapiau crychdonnau: cydweithio

Dyma'r cyntaf o'r tri map crychdonnau llawn. Mae'r rhain yn dangos sut mae cydweithio (yr un cyntaf hwn), adnabod anghenion ac ymchwil yn sbarduno cyfres o grychdonnau effaith, o'r don gyntaf o newid i effaith ehangach ar draws y system addysg.

### Ffigur 5. Effaith Adnodd ar crychdonnau sy'n ymestyn o'i cydweithio




Mae'r map effaith hwn yn dangos sut mae cydweithio'n sbarduno'r don gyntaf o newid trwy allu, agwedd ac arferion gwaith staff Adnodd – o fod yn gynhwysol ac yn arloesol i ddefnyddio dulliau newydd a gweithio'n fwy effeithlon. Mae'r cryfderau hyn yn galluogi Adnodd i gydweithio'n effeithiol â sefydliadau eraill, gan greu mynediad at syniadau, sgiliau ac arbenigedd ehangach. Yn yr ail don, mae hyn yn cefnogi adnabod themâu ac anghenion y sector, ac yn y drydedd don mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at sicrhau bod adnoddau'n berthnasol, o ansawdd uchel ac yn hygyrch i bawb.

Fel esiampl, yn y gweithdai, soniwyd bod presenoldeb Adnodd yn yr Eisteddfod ac mewn sioeau addysg wedi arwain at gysylltiadau newydd â chyflenwyr a defnyddwyr, gan wella aliniad rhwng adnoddau a'r hyn y mae ysgolion ei angen.

## Y mapiau cyrchdonnau: adnabod anghenion

Mae cryfderau a gwerthoedd fel bod yn gynhwysol, arloesol ac yn barod i wthio ffiniau, wedi cyfrannu at waith Adnodd i adnabod anghenion yn glir a bylchau presennol. Mae hyn yn ei dro wedi galluogi Adnodd i nodi themâu a blaenoriaethau sy'n berthnasol i anghenion y Cwricwlwm i Gymru a'r sector addysgu ac yna cefnogi ymchwil Adnodd a'r gwaith y maent yn ei wneud mewn partneriaeth â sefydliadau eraill – gweler ffigur 6.

### Ffigur 6: effaith Adnodd a'r crychdonnau adnabod anghenion




Mae'r map hwn yn dangos sut mae adnabod anghenion yn dechrau gyda gwaith craidd Adnodd - gwrando, bod yn gynhwysol ac yn agored i arloesi. Mae hyn yn arwain at adnabod themâu a bylchau mewn darpariaeth, ac i ddeall beth sy'n berthnasol i'r sector. Yn yr ail don, mae'r mewnwelediadau hyn yn helpu i osod blaenoriaethau er mwyn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru; ac yn y drydedd don maent yn cyfrannu at sicrhau bod yr adnoddau sy'n cael eu comisiynu yn berthnasol i'r angen, o ansawdd uchel ac yn hygyrch i bawb.

Yn y gweithdai, nododd staff fod gwaith adnabod angen wedi tynnu sylw at fylchau mewn adnoddau Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag ADY. Defnyddiwyd y mewnwelediad hwn i lywio comisiynu pellach ac i gynllunio ymchwil i ddeall anghenion ysgolion yn well.

## Ymchwil

Mae cryfderau a gwerthoedd a ddisgrifiwyd gan dîm Adnodd, sef bod yn greadigol, yn gynhwysol, yn ystwyth ac yn barod i wthio ffiniau, yn sail i waith ymchwil Adnodd. Mae'r ymchwil hefyd yn cyfrannu at nodi angen ac yn cefnogi gwaith Adnodd gyda sefydliadau partner. Gweler ffigur 7.

### Ffigur 7: affaith Adnodd ar arychdonnau sy'n ymestyn o'i gwaith ymchwil



Mae'r map hwn yn dangos sut mae ymchwil Adnodd yn cael ei defnyddio fel ton gynnar tuag at effaith. Drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol fel teithiau defnyddwyr a llythrennedd, bydd Adnodd yn datblygu mewnwelediad newydd. Yn y gweithdai, pwysleisiodd staff fod ymchwil yn weithgarwch cylchol: mae ymchwil yn arwain at ddysgu ac mewnwelediadau newydd, ac mae'r rhain yn sbarduno ymchwil pellach. Mae'r cylch parhaus hwn yn cryfhau sail dystiolaeth y sefydliad ac yn dylanwadu ar nodi anghenion. Yn yr ail don, mae'r mewnwelediadau hyn yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru; ac yn y drydedd don maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at sicrhau bod yr adnoddau yn berthnasol i'r angen, o ansawdd uchel ac yn hygyrch i bawb.

Yn y gweithdai, nodwyd y bydd ymchwil Adnodd yn canolbwyntio ar lythrennedd ac anghenion dysgwyr a fydd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gomisiynu adnoddau newydd ac ar ddewis prosiectau cydweithredol gyda phartneriaid.

Mae'r tri map crychdonnau hyn, pan gânt eu darllen gyda'i gilydd, yn dangos sut mae tri maes gwaith craidd Adnodd yn gallu creu cylch o welliant parhaus drwy'r system addysg.

Mae'r diagramau hefyd yn dangos yr elfennau atgyfnerthol sy'n cysylltu gweithgarwch Adnodd ag effaith y sefydliad, diwylliant agored, cryfderau'r tîm a phartneriaethau sy'n tyfu'n barhaus. Er enghraifft, nodwyd yn y gweithdai fod dulliau gwneud penderfyniadau Adnodd sy'n cynnwys rhannu rhesymeg comisiynu'n agored wedi helpu partneriaid i ddeall y system yn well ac wedi helpu i feithrin ymddiriedaeth ehangach.

Fodd bynnag, nododd staff yn y gweithdai fod y gwaith hwn ddim heb ei heriau. Cyfeiriwyd at rai rwystrau systemig megis prosesau caffael a chyhoeddus sy'n gallu oedi gwaith, pwysau ar y farchnad greadigol, a sefyllfaoedd brys all godi. Er hyn, mae ymrwymiad Adnodd i adolygu a gwerthuso ei waith yn gyson yn ei roi mewn sefyllfa dda i addasu ac atgyfnerthu'r crychdonnau effaith dros amser.



# 5. Casgliad: yr effeithiau sy'n amlwg o'r mapiau effaith

Mae'r diagramau crychdonnau uchod yn dangos sut mae gwahanol elfennau gwaith Adnodd yn cysylltu â'i gilydd: y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu, cryfderau a gwerthoedd y tîm, a'r ffordd y mae hyn yn siapio ei berthnasoedd â phartneriaid. Mae Adnodd yn dysgu ac yn addasu'n gyson, ac mae'r dull hwn yn cyfrannu at gryfhau'r effaith ar y system ehangach. Wrth i Adnodd barhau i adolygu a gwerthuso ei waith, mae'n debygol y bydd y grychdonnau effaith a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn cryfhau ac yn ehangu dros amser.

*Daeth i'r amlwg drwy'r gweithdai bod…*

**Sefydlu seiliau cadarn:** Mae gwaith Adnodd yn ei flynyddoedd cynnar yn dangos sefydlu seiliau cadarn: strwythurau clir, prosesau tryloyw, arweinyddiaeth agored, a diwylliant cadarnhaol sy'n rhoi gwerth ar arloesi, ar gymryd risgiau cyfrifol, ac ar ddwyieithrwydd. Mae'r elfennau hyn wedi helpu i greu sefydliad gweithgar a dibynadwy, gyda systemau sy'n gallu cefnogi twf pellach.

**Comisiynu strategol ac arloesi:** Mae'r dystiolaeth yn dangos bod Adnodd yn datblygu dull mwy strategol o gomisiynu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ar ddealltwriaeth gliriach o anghenion y sector. O ganlyniad, mae'r sefydliad yn symud tuag at ffyrdd o weithio mwy systematig ac arloesol, gyda chyd-destunau pwrpasol a phrosesau sy'n gwella effeithlonrwydd ac ansawdd.

**Cydweithio a dylanwad sector:** Mae tystiolaeth gref o gadarnhau a chryfhau cydberthnasau ar draws y system addysg. Mae Adnodd wedi cynyddu ei bresenoldeb cyhoeddus ac wedi meithrin perthnasau gwaith cryf gyda chyflenwyr, partneriaid cenedlaethol ac ymarferwyr. Mae hyn wedi sbarduno mwy o aliniad a llai o ddyblygu ar draws y system, gan gryfhau dylanwad Adnodd fel corff cenedlaethol.

**Ansawdd, hygyrchedd a pherthnasedd:** Mae'r tri llwybr crychdonnau yn dod ynghyd i arwain at yr un canlyniad: adnoddau sy'n fwy perthnasol i'r angen, o ansawdd uwch ac yn fwy hygyrch i bawb. Mae safonau clir, adborth ymarferwyr a defnydd gwell o dystiolaeth yn cyfrannu at ddull mwy cadarn o sicrhau ansawdd a gwella'r adnoddau a gynhyrchir.

Gyda'i gilydd mae'n dangos sut mae diwylliant Adnodd yn sbarduno cydweithio; sut mae cydweithio'n gwella'r gallu i adnabod anghenion; a sut mae hynny'n cefnogi comisiynu ac ymchwil o ansawdd uwch. Mae'r elfennau hyn yn ffurfio cylch o welliant sy'n atgyfnerthu effaith y sefydliad dros amser.

Drwy adolygu a gwerthuso'n gyson, mae Adnodd mewn sefyllfa dda i barhau i ddysgu ac addasu. Dros amser, bydd y dull hwn yn helpu i gryfhau a chyflymu'r grychdonnau effaith sy'n dod i'r amlwg ar hyn o bryd. Er ei fod yn gorff cymharol newydd, mae effaith Adnodd o ddatblygu adnoddau sy'n fwy perthnasol ac o ansawdd uwch eisoes yn weladwy.

## Cryfhau'r effeithiau

Er mwyn symud o ddisgrifiad effaith i gamau gweithredu, cyn cloi, mae'r adran nesaf yn amlinellu argymhellion cryno sy'n deillio'n uniongyrchol o'r effeithiau cynnar sydd wedi dod i'r amlwg.

### 1. Atgyfnerthu'r tri maes gwaith craidd fel cylch

Dylai Adnodd barhau i drin cydweithio, adnabod anghenion, ac ymchwil fel system gysylltiedig, gan gynllunio gweithgareddau a phenderfyniadau comisiynu mewn ffordd sy'n manteisio'n fwriadol ar y cryfderau hyn.

### 2. Gwneud y cylch dysgu'n fwy gweladwy

Mae canfyddiadau'r mapio effaith wedi dangos bod dysgu parhaus sy'n seiliedig ar ymchwil, adnabod anghenion a chydweithio yn gryfder amlwg. Gellid cryfhau'r effaith hon ymhellach drwy wneud y cylch dysgu hwn yn fwy eglur a gweladwy i bartneriaid a rhanddeiliaid, er enghraifft drwy adroddiadau cryno neu ddiweddariadau sy'n egluro'r dysgu ac yn dangos sut mae canfyddiadau ymchwil neu enghreifftiau o gydweithio yn dylanwadu ar waith Adnodd.

### 3. Diffinio dangosyddion llwyddiant

Er mwyn monitro cynnydd dros amser, gallai Adnodd gymryd camau tuag at ddull mwy systematig o asesu effaith. Byddai hyn yn cynnwys diffinio set glir o ddangosyddion llwyddiant (ansoddol a meintiol) sy'n nodi'n benodol beth mae "llwyddiant" yn ei olygu a sut y gellir ei ddangos a'i dystiolaethu drwy gasglu tystiolaeth. Gallai'r rhain adlewyrchu nodau a blaenoriaethau Adnodd, ynghyd â'r effeithiau a nodwyd yn yr adroddiad hwn, er enghraifft agweddau megis ansawdd cydweithio, perthnasedd adnoddau, ac amlder a natur eu defnydd gan ymarferwyr.

### 4. Parhau i fodelu dwyieithrwydd

Mae effaith Adnodd fel model o arfer dwyieithog wedi bod yn amlwg. Dylid parhau i osod disgwyliadau clir ar gyflenwyr a phartneriaid, gan gefnogi'r sector ehangach i godi safonau ac adeiladu hyder mewn darpariaeth Gymraeg a dwyieithog.

### 5. Defnyddio mapio effaith fel offeryn dysgu sefydliadol parhaus

Gellid ystyried dychwelyd at fapio effaith crychdonnau yn rheolaidd (er enghraifft ar sail gylch blynyddol neu ar ôl camau comisiynu penodol) fel dull o gefnogi dysgu sefydliadol, cynllunio ymlaen a chyfathrebu effaith. Gellid defnyddio'r dull hwn yn benodol o fewn cyfarfodydd mewnol er mwyn adolygu canfyddiadau, adnabod gwersi, a llywio camau nesaf.

adnodd

yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

adnodd.llyw.cymru

Adnodd, Tramshed Tech, Pendyris St, Caerdydd, CF11 6BH. Hawlfraint © 2026 Adnodd. Cedwir Pob Hawl.